CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



# Lle i anadlu

Sut mae ein hariannu'n helpu cymunedau i ddefnyddio, creu a gwella mannau awyr agored

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r hyn y mae ein deiliaid grant ledled y DU wedi'i gyflawni trwy ddarparu rhagor o fannau awyr agored, rhesymau i ymweld â nhw a'u defnyddio, a ffyrdd i gael mynediad atynt, trwy fuddsoddiad o £527 miliwn gan y Loteri Genedlaethol a ffynonellau trydydd parti dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i wasgaru ar draws pedair elfen allweddol, gan helpu'r sector gwirfoddol a chymunedol i: gaffael a chreu mannau awyr agored fel coetiroedd a gwarchodfeydd natur; adeiladu a gwella mannau awyr agored datblygiedig fel parciau a meysydd chwarae; darparu gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr awyr agored ac annog defnydd mannau awyr agored; a chynyddu mynediad at yr awyr agored i bob adran o'r gymdeithas.

- Mannau awyr agored naturiol
- Mannau awyr agored datblygedig
- Gweithgareddau awyr agored
- Mynediad awyr agored
- Cyfanswm y buddsoddiad

## Cyfanswm

- **£220.2m** – 1,985 o ddyfarniadau
- **£321.1m** – 5,741 o ddyfarniadau
- **£198.6m** – 3,031 o ddyfarniadau
- **£6.6m** – 76 o ddyfarniadau
- **£527.2m** – 8,362 o ddyfarniadau

## Lloegr

- **£159.5m** – 1,476 o ddyfarniadau
- **£230.9m** – 4,029 o ddyfarniadau
- **£142.7m** – 2,147 o ddyfarniadau
- **£4.9m** – 47 o ddyfarniadau

## Yr Alban

- **£19.6m** – 265 o ddyfarniadau
- **£38m** – 836 o ddyfarniadau
- **£21.4m** – 459 o ddyfarniadau
- **£279,000** – 17 o ddyfarniadau

## Prosiectau DU-gyfan

- **£21.1m** – 92 o ddyfarniadau
- **£7.1m** – 260 o ddyfarniadau
- **£3.2m** – 76 o ddyfarniadau
- **£453,000** – 5 o ddyfarniadau

## Cymru

- **£14.1m** – 92 o ddyfarniadaus
- **£21.1m** – 322 o ddyfarniadau
- **£12.8m** – 148 o ddyfarniadau
- **£742,000** – 5 o ddyfarniadau

## Gogledd Iwerddon

- **£5.6m** – 60 o ddyfarniadau
- **£23.8m** – 294 o ddyfarniadau
- **£18.4m** – 201 o ddyfarniadau
- **£208,000** – 2 o ddyfarniadau

# Canfyddiadau allweddol

**Bob mis, mae 1.8 miliwn o bobl yn defnyddio llefydd a mannau sydd wedi'u gwella trwy grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**. Mae cyfran fawr o'r rhain yn fannau awyr agored lle mae cymunedau'n cyfarfod, chwarae, gwneud ymarfer corff a gweithio. Er enghraifft, gwellodd ein rhaglen Access to Nature bron i 2,800 o fannau awyr agored ledled Lloegr trwy adeiladu llwybrau cerdded, ychwanegu arwyddion, amddiffyn rhywogaethau prin ac ymdrin â llystyfiant sydd wedi gordyfu.

**Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein hariannu wedi helpu pobl i wella eu ffitrwydd yn yr awyr iach trwy adeiladu, adnewyddu a gwella defnydd 224 o gampfeydd awyr agored, 301 o gaeau chwaraeon a 49 o lwybrau cerdded**. Ym Mhontypridd, cymerodd Partneriaeth Adfywio Ynysybwl reolaeth dros bwll nofio awyr agored lleol a defnyddio ein hariannu i wella diogelwch ac ychwanegu pibellau newydd, toiledau a chyfleusterau newid. Yn ystod yr haf canlynol, roedd 2,500 o ymweliadau â'r pwll a rhoddwyd 700 o oriau gwirfoddol, gyda 19 o achubwyr bywyd newydd naill ai'n cael eu cyflogi neu eu hyfforddi fel gwirfoddolwyr.

**Ar gyfer pob £1 a wariwyd ar barciau, mae dychweliad o £7 mewn gwerth o ran buddion i iechyd, lles a'r amgylchedd, ac rydym wedi cefnogi 2,171 o brosiectau parc a mannau gwyrdd** dros y pum mlynedd diwethaf. Mewn partneriaeth â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, ariannwyd 200 o barciau cyhoeddus ledled y DU gan ein rhaglen Parciau i Bobl, gydag ymwelwyr yn gwella eu hiechyd meddwl (58%) a gweithgarwch corfforol (56%). Yn Belfast, ychwanegodd y prosiect Connswater Community Greenway 16km o lwybrau cerdded a seiclo, glanhaodd 5km o afonydd a rhoddodd ddychweliad disgwyliedig ar fuddsoddiad o hyd at £6 ar gyfer pob £1 o gyllid.

**Mae 45% o'n sefydliadau a ariennir yn dweud bod eu grant yn eu helpu i wella llefydd, mannau, asedau a chyfleusterau lleol**, sy'n cynnwys cynnal a chadw mannau awyr agored. Roedd y prosiect Urban Wild Places yn hyfforddi a chefnogi pobl yng nghanol Llundain i adennill mannau gwyrdd nad oeddent yn cael eu defnyddio, gan eu trawsffurfio i fannau bywyd gwyllt cymunedol neu safleoedd tyfu bwyd. Yn gyffredinol, dywedodd 93% bod tyfu, cynaeafu a choginio gyda'i gilydd wedi'u helpu i ddod i adnabod eu cymdogion yn well, a mwynhaodd 100% o bobl ifanc wneud rhywbeth cadarnhaol dros eu cymuned.

Rydym wedi helpu plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a thyfu'n iach lle bynnag y maen nhw'n byw trwy **adeiladu, moderneiddio a gwella mynediad at 683 o feysydd chwarae** dros y pum mlynedd diwethaf. Er enghraifft, gwnaethom helpu Cyngor Rhanbarth South Lakeland i wella wyth o feysydd chwarae mewn ardaloedd gwledig, ynysig trwy adnewyddu cyfarpar a gwneud mynediad yn haws ac yn fwy diogel. Gwnaethom hefyd gefnogi Playing Out i gynllunio i gau ffyrdd dros dro fel bod 339 o gymunedau'n gallu gadael eu plant i chwarae'n ddiogel ar strydoedd cyhoeddus.

**Mae 23% o'n deiliaid grant yn dweud bod eu gwaith yn cyfrannu at gymunedau'n cael gwell mynediad at isadeileddau** allweddol fel parciau. Mae Dementia Adventure yn helpu pobl â dementia i oresgyn rhwystrau i gael mynediad at fannau awyr agored. Trwy ein hariannu, trefnodd y grŵp dros 900 o sesiynau gweithgarwch awyr agored, o gerdded

mewn coetiroedd i arddio ac ymweliadau fferm, ar gyfer 2,500 o bobl â dementia a 582 o ofalwyr. Gwelodd y prosiect hefyd bobl â dementia'n darparu hyfforddiant i ofalwyr ac ymarferwyr iechyd, gan eu helpu i fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio mannau awyr agored mewn gofal a thriniaeth dementia.

Mae gweithgareddau awyr agored yn rhan hanfodol o fywyd iach ac yn rhan allweddol o bresgripsiynu cymdeithasol, sy'n ymwneud â chyfeirio cleifion at ymyriadau cymunedol nad ydynt yn feddygol i wella eu hiechyd. Mae prosiect Perllan Gymunedol Urban Biodiversity yn Newquay yn gweld pobl ag anghenion iechyd hirdymor yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel tyfu coed, cynnal a chadw'r safle a chynaeafu llysiau. Trwy'r prosiect, lleihaodd 19% o gyfranogwyr eu defnydd o feddyginiaeth a lleihaodd 33% ohonynt eu defnydd o wasanaethau'r meddyg teulu, gan arbed arian ac adnoddau i'r gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor byr a'r hirdymor.

Rydym wedi cefnogi **3,409 o brosiectau rhandir a gerddi cymunedol** dros y pum mlynedd diwethaf, gan roi man awyr agored a rennir a gweithgarwch ar draws rhaniadau diwylliannol, economaidd a rhwng cenedlaethau. Gallai tyfu ffrwythau a llysiau mewn mannau gwyrdd trefol hefyd helpu cadw cyflenwadau bwyd yn unol â thwf poblogaeth, ac rydym wedi helpu'r rhwydwaith Incredible Edible o 144 o grwpiau ledled y DU i dyfu bwyd ar fwy na 16,000m2 o dir, gyda dros 6,000 o bobl yn cymryd rhan fel gwirfoddolwyr.

Rydym wedi helpu cymunedau i archwilio natur, gan eu cefnogi **i gaffael, defnyddio a gwella hygyrchedd 833 o goetiroedd a 428 o lynnoedd a dyfrffyrdd** yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ni all rhai pobl fforddio teithio i gefn gwlad neu nad ydynt yn teimlo wedi'u croesawu mewn rhai mannau cyhoeddus, sy'n eu hatal rhag mwynhau mannau awyr agored cymaint ag eraill. Gwnaethom ddyfarnu £9,000 i Students and Refugees Together yn Plymouth i gynnal grwpiau cerdded i ffoaduriaid, gan helpu'r rhai hynny sy'n newydd i'r ardal gysylltu â natur leol, teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hamgylchoedd, a chyfarfod pobl newydd i feithrin eu hymdeimlad o gymuned.

Mae'r tîm Gwybodaeth a Dysgu yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn rhannu mewnwelediadau o'r profiad o'n hariannu a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Pe hoffech ddweud wrthym eich barn am yr adroddiad hwn, neu rannu canfyddiadau a dysgu perthnasol, anfonwch e-bost atom ar knowledge@tnlcommunityfund.org.uk

Cysylltiadau allweddol: Temoor Iqbal ac Anne-Mari Hall

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Fersiwn 1. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.
Cyfeirnod: KL22-01